**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**
# PWYLLGOR LLYWIO CYDYMFFURFIO Â'R UKVI

Yn adrodd i: Gweithrediaeth y Brifysgol

Yn cwrdd: 3 gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Ionawr 2019; diwygiad ddiwethaf: Ionawr 2019; ac i'w adolygu nesaf: Ionawr 2021*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Swyddog Awdurdodi/Dirprwy Is-Ganghellor (Cadeirydd)<br>• Cysylltwr Allweddol/Cofrestrydd Cynorthwyol (Cydymffurfio â'r UKVI)<br>• Cofrestrydd Academaidd<br>• Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella)<br>• Pennaeth Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol<br>• Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol<br>• Cofrestwyr y Cyfadrannau<br>• Dirprwy Gofrestrydd (Derbyniadau)<br>• Cofrestrydd Cynorthwyol (Derbyn Israddedigion)<br>• Cofrestrydd Cynorthwyol (Derbyn Uwchraddedigion)<br>• Dirprwy Gofrestrydd (Gweinyddiaeth Myfyrwyr)<br>• Cyfarwyddwr y Ganolfan Saesneg Ryngwladol<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br>• Rheolwr Cydymffurfiaeth Adnoddau Dynol (Haen 2 a 5, myfyrwyr Haen 4 a gyflogir gan PA)<br>• Cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Gwybodaeth Busnes<br>• Swyddog Materion Academaidd UM<br><br>Cworwm: O leiaf hanner yr aelodau (50%) | • Rheolwr Cydymffurfio â'r UKVI<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Mae Grŵp Llywio Cydymffurfio â'r UKVI yn diogelu Trwydded Noddwr y Brifysgol oddi wrth yr UKVI sy'n caniatáu recriwtio staff a myfyrwyr sy'n dod o dan reolaeth fewnfudo; mae hyn yn cynnwys (ymysg pethau eraill) noddi myfyrwyr Fisa Haen 4 a'r 'hawl i astudio' i fyfyrwyr eraill sy'n dod o dan reolaeth fewnfudo; noddi staff Fisa Haen 2 a 5 a gwiriadau ar yr 'hawl i weithio' i staff eraill sy'n dod o dan reolaeth fewnfudo; a monitro'r myfyrwyr Haen 4 a gyflogir gan Brifysgol Aberystwyth.

---

Cylch gorchwyl:

1. Arddel awdurdod sydd wedi'i ddirprwyo gan y Weithrediaeth dros sicrhau bod y prosesau a'r rheolaethau gweithredol yn effeithiol ac yn ateb gofynion Trwydded Prifysgol Aberystwyth gan yr UKVI i recriwtio staff a myfyrwyr o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeiaidd (AEE). Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, fisas Haen 4 (myfyrwyr), Haen 2 (staff), Haen 5 (gweithwyr dros dro) a fisas Astudio Byrdymor.

2. Deall newidiadau yn y gofynion statudol a'r ddeddfwriaeth ar fewnfudo ac ymateb i'r newidiadau hyn.

3. Datblygu, cymeradwyo a lledaenu polisïau, gweithdrefnau a chyfathrebiadau allweddol i'r holl staff perthnasol yn y Brifysgol, gan sicrhau bod y sefydliad yn deall ei gyfrifoldebau.

4. Datblygu, cynnal a monitro Cofrestr Risg y sefydliad ynglŷn â gweithgareddau UKVI.

5. Sichrau bod y myfyrwyr a'r staff y mae eu fisa wedi'i noddi gan y Brifysgol yn deall eu hawliau a'u cyfrifioldebau.

6. Datblygu dull cadarn i ymateb i ymweliadau archwilio'r Sywddfa Gartref.

7. Derbyn adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol a datblygu ymatebion y rheolwyr.

8. Datblygu cynlluniau gweithredol byrdymor a hirdymor a rhoi'r rhain ar waith er mwyn sicrhau dulliau cydymffurfio cynaliadwy.

9. Derbyn adroddiadau cyson ar wybodaeth reoli ynglŷn â'r canlynol (er enghraifft): recriwtio rhyngwladol, cyfraddau gwrthod fisas, cyfraddau peidio ag ymrestru, cyfraddau peidio â chwblhau, a monitro presenoldeb / ymgysylltu.

10. Cynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol, fel bo'n briodol, ar y canlynol:

    a. Materion cydymffurfiaeth Haen 4 y Swyddfa Gartref ynglŷn a recriwtio, derbyn a chofrestru myfyrwyr rhyngwladol;
    b. Materion cydymffurfio Haen 2 a 5 y Swyddfa Gartref ar gyfer cyflogi staff rhyngwladol;
    c. Metrigau Cydymffurfiaeth o dan ein Hasesiad Cydymffurfio Sylfaenol (cyfradd gwrthod fisas, cyfradd peidio ag ymrestru, cyfradd peidio â chwblhau);
    d. Adroddiadau cyson yr archwilwyr mewnol ar waith i gydymffurfio â gofynion yr UKVI a wnaed gan yr archwilwyr allanol;
    e. Adroddiadau archwilio Tîm Sicrwydd Addysg Uwch yr UKVI.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel bo'n briodol ar weithgareddau'r Pwyllgor drwy'r Cadeirydd, a fydd yn aelod o weithrediaeth y Brifysgol.